**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Addysg

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 11 Mai 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | Y V Jardine | S M Jones |
| S Joy | F D O'Brien | A J O'Connor |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Louise Herbert-Evans | Rheolwr Tîm Cyfalaf |
| Jennifer Harding-Richards | Ymgynghorydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
| Pam Cole | Uwch-arweinydd Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Chydraddoleb |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A M Day, B Hopkins, S E Keeton a J D McGettrick

---

56 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd y Cyng. Lyndon Jones gysylltiad personol ag Eitem 8.

57 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

58 **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 20 April 2023 gan y Panel.

**Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**Aflonyddu mewn Ysgolion - Diweddariad**

Diolchodd y Panel i'r Cyng. Robert Smith, Helen Morgan-Rees a Rhodri Jones am ddod i gyfarfod y Panel i drafod yr adroddiad a gyflwynwyd. Roedd yr adroddiad yn dilyn diweddariad llafar a roddwyd i'r Panel ym mis Mehefin 2021, lle'r oedd ffocws cenedlaethol ar y pwnc hwn oherwydd y wefan Everyone's Invited, a oedd yn darparu lle i ddioddefwyr cam-drin rhywiol ac aflonyddu rannu eu straeon. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe ers y cyfnod hwnnw. Trafododd y Panel yr adroddiad a bydd ei farn a'i sylwadau'n llunio rhan o'r llythyr at Aelod y Cabinet.

**Mynd i'r afael â Hiliaeth mewn Ysgolion**

Diolchodd y Panel i Jennifer Harding Richards a Pam Cole am ddod i'r cyfarfod a darparu adroddiad ysgrifenedig a oedd yn rhoi crynodeb manwl o'r mater i'r Panel. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Y cyd-destun ehangach
- Y cyd-destun lleol
- Llywodraethu ac Arweinyddiaeth
- Amgylchedd yr Ysgol/Cwricwlwm Cudd
- Rhieni, Gofalwyr a Phartneriaeth Gymunedol
- Dysgu a Datblygu Proffesiynol
- Addysgeg a Chwricwlwm

Bydd crynodeb o farn y Panel am gynnydd yn ffurfio rhan o'r llythyr at yr Aelod Cabinet yn dilyn yn cyfarfod.

62 **Diweddariad ar Addysg o Safon (AoS)/Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu**

Diolchodd y Panel i Louise Herbert Evans am ddarparu cyflwyniad PowerPoint manwl i'r Panel a oedd yn rhoi trosolwg o'r Rhaglen Addysg o Safon / Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Trosolwg o'r rhaglen
- Cyflwyno'r rhaglen
- Agweddau ar Gynnal a Chadw Cyfalaf
- Adeiladau newydd fel Maes Derw, YGG Tan-y-lan ac YGG Tirdeunaw
- Estyniadau ac ailfodelu er enghraifft Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
- Yr hyn sy'n weddill yn y rhaglen Band B
- Y rhaglen dreigl/amlinelliad strategol newydd a Model Buddsoddi Cydfuddiannol
- Safleoedd strategol y CDLl
- Risgiau a phroblemau'r rhaglen
- Grantiau ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Y Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol

Croesawodd y Panel y gwaith a wnaed i wella a datblygu'r stoc ysgolion a'r cyfleusterau ar gyfer dysgu. Bydd barn y Panel yn ffurfio rhan o'r llythyr i'r Aelod Cabinet.

## 63 Adolygiad diwedd blwyddyn Craffu ar Addysg

Gan mai hwn fydd cyfarfod olaf y flwyddyn ddinesig hon, gwahoddwyd y Panel i fyfyrio ar waith craffu, profiadau ac effeithiolrwydd y flwyddyn hon. Roedd hyn yn cynnwys croesawu unrhyw syniadau a fyddai'n gwella effeithiolrwydd y gwaith craffu ar addysg.

Diolchodd Cynullydd y Panel i'r Swyddogion a chyd-aelodau'r Panel am eu hymrwymiad i'r Panel, gan ei fod yn teimlo bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol eleni.

Dywedodd y Panel:

- ei fod yn falch bod yr adroddiad Estyn diweddaraf o wasanaethau addysg yn canmol gwaith y Panel.
- bod yr ymweliadau ysgol yn ddefnyddiol iawn ar y cyfan a hoffai'r Panel barhau â'r rhain yn y flwyddyn ddinesig sydd ar ddod.
- ei fod wedi cwmpasu amrywiaeth fawr o faterion o fewn y flwyddyn a oedd yn effeithio ar addysg yn Abertawe.
- ei fod yn fuddiol iawn i gael cefnogaeth ardderchog ar gyfer rôl cyfaill beirniadol y Panel gan Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu, y Cyfarwyddwr a staff yr Adran Addysg.

**Er gwybodaeth - Rhestr Canlyniadau Arolygu Ysgolion Unigol Ddiweddar**

Nododd y Panel y rhestr o ganlyniadau Arolygiad Estyn ar gyfer ysgolion unigol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40pm

**Cadeirydd**